



Rydym yn recriwtio ar gyfer:

CLERC A SWYDDOG CYLLID CYFRIFOL

Graddfa Gyflog Scp23 – Gw.28 (£33,366-£37,938)

Pro rata 10 awr o 37 awr (cyfwerth ag amser llawn)*

*Bydd wythnos waith arferol yn 10 awr, ond efallai y bydd angen gweithio mwy o oriau o bryd i'w gilydd. Mae angen hyblygrwydd, i gynnwys rhai digwyddiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Argoed yw un o'r cynghorau cymuned mwyaf yn Sir y Fflint gyda phoblogaeth o fwy na 6000. Mae'r Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau ac yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i gynnal a chadw eu cyfleusterau i safon uchel. Mae ein cyllideb bresennol oddeutu £90,000.

Mae'r Cyngor yn dymuno penodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol arloesol i gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar reolaeth, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau llywodraeth leol, gallu dangos sgiliau cyfathrebu rhagorol, rhifedd a naill ai meddu ar Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA) neu fod yn barod i weithio tuag at ei hennill.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n ddeinamig, yn canolbwyntio ar bobl a'r gymuned, yn drefnus iawn ac yn deall sut mae sefydliadau cymunedol yn gweithredu ac yn cydweithio. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cysylltiadau cymunedol cryf a chefnogi'r Cyngor i ddod â gwleidyddiaeth leol yn fyw.

Gofynnwch am becyn ymgeisydd gan jobs@argoedcommunitycouncil.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Mawrth 2025.

I wneud cais, anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau a curriculum vitae, ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni'r fanyleb person, i jobs@argoedcommunitycouncil.gov.uk erbyn 31 Mawrth 2025.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Mareed Eastwood ar 01352 751490 neu 07860 866710 neu e-bostiwch jobs@argoedcommunitycouncil.gov.uk.